COMISIWN ELUSENNAU

# Newyddion

Newyddion y CE 50 - Ebrill 2015

## Cynnwys


- Helpu i redeg elusen ond ddim yn meddwl eich bod chi'n ymddiriedolwr?
- Newidiadau ar gyfer ffurflen flynyddol 2015
- Pa wersi allwch chi eu dysgu o'n hadolygiadau cyfrifon?
- Gwasanaeth ffonio nôl newydd
- Beth yw'ch barn chi am y gofrestr ar-lein newydd
- 5 awgrym ar gyfer cael hyd i'n canllawiau ar GOV.UK
- Defnyddio ein rhestr wirio i roi 'archwiliad iechyd' i'ch elusen
- Blwyddyn newydd, dechrau newydd: ffeiliwch mewn pryd!
- Oes gan eich elusen yr awdurdod i gyflogi ymddiriedolwyr?
- Ydych chi'n ymwybodol o'r newidiadau i drothwyon archwilio elusennau?
- Gwnewch yn siŵr bod eich dulliau codi arian yn agored ac yn glir bob tro
- Cymryd rhan yn Wythnos Elusennau Bach!


## Helpu i redeg elusen ond ddim yn meddwl eich bod chi'n ymddiriedolwr? Darllenwch ymlaen ...

Ymddiriedolwyr elusen yw'r bobl sy'n gyfrifol am lywodraethu elusen a chyfeirio sut y caiff ei rheoli a'i rhedeg. Gallant gael eu galw'n ymddiriedolwyr, y bwrdd, y pwyllgor rheoli, llywodraethwyr, cyfarwyddwyr neu enw arall. Does dim ots pa derm y mae dogfen lywodraethol yr elusen yn ei ddefnyddio, rydych chi'n ymddiriedolwr yn ôl y gyfraith os ydych chi'n rhan o'r grŵp o bobl sydd â'r cyfrifoldeb pennaf dros oruchwylio ac arwain yr elusen a chyfeirio sut y caiff ei rhedeg.

Rydym yn poeni bod gormod o bobl yn gwasanaethu ar gyrff ymddiriedolwyr ond nid ydynt yn sylweddoli eu bod nhw'n ymddiriedolwyr. Felly, nid ydynt yn sylweddoli bod rhaid iddynt gydymffurfio â'r gyfraith elusennau na bod ein canllawiau yn gymwys iddyn nhw.

Edrychwch i weld pwy y mae'ch dogfen lywodraethol yn dweud yw prif gorff gwneud penderfyniadau eich elusen. Mae pob aelod o'r corff hwnnw a benodwyd yn briodol yn ymddiriedolwr elusen yn ôl y gyfraith. Ni allwch ddewis i gael y pŵer heb y cyfrifoldeb, felly allwch chi ddim dewis pwy sy'n ymddiriedolwr. Os ydych yn darganfod eich bod chi'n ymddiriedolwr, neilltuwch amser i ddarllen rhai o'n canllawiau craidd, a gwnewch yn siŵr eich bod chi'n deall eich rôl yn y dyfodol.

## Newidiadau ar gyfer ffurflen flynyddol 2015

Erbyn hyn mae ffurflen flynyddol 2015 ar gael i'w chwblhau ar GOV.UK. Mae hyn yn dilyn ymgynghoriad y llynedd ar gynigion ar gyfer yr wybodaeth y dylem ei chasglu trwy'r ffurflen flynyddol. Mae'r ffurflen flynyddol newydd yn cynnwys tri chwestiwn newydd:

- yn y cyfnod adrodd, faint o incwm oeddech chi wedi'i dderbyn gan:
  - gontractau llywodraeth ganolog neu leol i ddarparu gwasanaethau?
  - grantiau gan lywodraeth ganolog neu leol?
- oes gan eich elusen bolisi ar dalu ei staff?
- ydy'ch elusen wedi adolygu ei rheolaethau ariannol yn ystod y cyfnod adrodd?

Rydym yn annog elusennau, eu hymddiriedolwyr a'u cynghorwyr i ddarllen y canllawiau ar-lein a ddarparwyd cyn mewngofnodi i gwblhau'r ffurflen flynyddol er mwyn iddynt wybod pa wybodaeth y mae angen iddynt ei chyflwyno. Mae'n rhaid i bob elusen gofrestredig sydd ag incwm o fwy na £10,000 gwblhau'r ffurflen flynyddol o fewn 10 mis i ddiwedd eu blwyddyn ariannol. Rhaid i bob SCE, waeth beth fo'i incwm, gyflwyno ffurflen flynyddol.

**Am gadw i fyny â'n newyddion, canllawiau a digwyddiadau? Gwnewch yn siŵr eich bod chi'n ein dilyn ni ar @ChtyCommission**

## Pa wersi allwch chi eu dysgu o'n hadolygiadau cyfrifon?

Bob blwyddyn, byddwn yn monitro sampl o gyfrifon elusennau i wirio eu bod yn cydymffurfio â'r Datganiad o Arferion Cymeradwy Elusennau (SORP) ac adnabod problemau sydd o bryder rheoleiddio. Rydym wedi cyhoeddi adroddiadau ar ansawdd cyfrifon elusennau ac adrodd ar fudd cyhoeddus gan elusennau sydd ag incwm o fwy na £25,000.

Roedd y mwyafrif o'r cyfrifon a adolygwyd o ansawdd derbyniol. Fodd bynnag, roedd sawl elusen heb gyflwyno un neu ragor o'r prif gydrannau; adroddiad blynyddol yr ymddiriedolwyr, yr adroddiad craffu annibynnol neu'r cyfrifon eu hunain. Roedd diffygion mawr yn y manylion eraill a gyflwynwyd, fel cynnwys nodiadau cyfarfodydd cyffredinol blynyddol yn lle adroddiadau blynyddol yr ymddiriedolwyr. Cyn paratoi eich cyfrifon blynyddol, gwnewch yn siŵr eich bod chi'n darllen ein canllawiau, sy'n cynnwys adroddiadau blynyddol yr ymddiriedolwyr a chyfrifon pro-forma a'r gofynion archwiliad annibynnol.

Nid oedd y rhan fwyaf o adroddiadau blynyddol yr ymddiriedolwyr o adolygwyd yn dangos dealltwriaeth glir o'r gofyniad adrodd am fudd cyhoeddus. Nid oedd llawer ohonynt yn esbonio sut mae eu gweithgareddau o fantais i'w buddiolwyr. Yr elfen a gafodd ei gadael allan yn fwyaf aml oedd y datganiad gofynnol ynghylch yr ymddiriedolwyr ac a ydynt wedi ystyried canllawiau'r comisiwn ar fudd cyhoeddus neu beidio. Mae adroddiad blynyddol yr ymddiriedolwyr yn fwy na dim ond gofyniad statudol, mae'n gyfle i'r elusen 'adrodd ei hanes' i gefnogwyr, darpar gyllidwyr a'r cyhoedd - darllenwch ein canllaw a gwnewch yn siŵr eich bod chi'n adrodd eich hanes chi. **Cofiwch** - mae eich cyfrifon yn ddogfennau cyhoeddus sydd ar gael i'w lawrlwytho o GOV.UK.

### Gwasanaeth ffonio nôl newydd

Mae ein llinell gymorth dechnegol ar agor Llun - Gwener, 9am - 12pm. Fodd bynnag, rydym wedi cyflwyno gwasanaeth ffonio nôl hefyd, rhag ofn na allwch fynd trwyddo. Mae'r gwasanaeth hwn yn rhedeg Llun - Gwener, 9am - 5pm.

## Beth yw'ch barn chi am y gofrestr ar-lein newydd

Cyhoeddwyd fersiwn beta o'n dull chwilio elusennau ar-lein newydd yn ddiweddar sy'n ei gwneud hi'n haws i gael a deall gwybodaeth am elusennau. Mae data ar-lein y gofrestr yn ffynhonnell awdurdodol o wybodaeth am elusennau yng Nghymru a Lloegr.

Mae gwelliannau'n cynnwys:

- gwybodaeth allweddol yn fwy amlwg, fel incwm a gwariant a manylion cyswllt elusennau
- haws ei weld ar ffonau symudol a llechi
- dewisiadau hidlo chwilio haws eu defnyddio
- dewis newydd i lawrlwytho chwiliadau wedi'u hidlo fel ffeil CSV
- golwg a theimlad sy'n debyg i wasanaethau eraill ar GOV.UK

Bydd diweddariadau eraill i'r beta yn cynnwys gwybodaeth ychwanegol o ffurflenni blynyddol elusennau, gan gynnwys a yw elusen:

- yn talu ei hymddiriedolwyr
- yn codi arian gan y cyhoedd ac a yw'n defnyddio cyfranogwr masnachol i wneud hynny
- yn aelod o FRSB ac felly wedi ymrwymo i safonau codi arian uchel

Mae fersiynau beta yn ffordd bwysig i ni gasglu adborth a data ar wasanaethau digidol er mwyn eu gwella nhw. Rhowch wybod i ni beth yw'ch barn chi am y dull chwilio elusennau newydd, gan gynnwys awgrymiadau ar sut i'w wella! Gallwch roi adborth drwy arolwg ar-lein o fewn y dull chwilio.

## 5 awgrym ar gyfer cael hyd i'n canllawiau ar GOV.UK

Mae GOV.UK yn un safle ar gyfer y llywodraeth ac felly mae'n cynnwys swm enfawr o ddeunydd. Ers symud i GOV.UK rydym wedi edrych ar sut mae pobl yn cael hyd i wybodaeth. Dyma rai awgrymiadau i'ch helpu i chwilio a chael hyd i ganllawiau ar gyfer elusennau a'u cynghorwyr:

1. Pan fyddwch yn defnyddio Google, Bing neu beiriannau chwilio eraill, dylech gynnwys 'comisiwn elusennau' yn eich termau chwilio bob amser, e.e. 'adrodd am ddigwyddiadau difrifol comisiwn elusennau'.
2. Rhowch nod tudalen i'r rhestr o bynciau - mae'r rhain yn rhestru canllawiau i elusennau wedi'u cynhyrchu gan y comisiwn ac eraill (e.e. HMRC).
3. Rhowch nod tudalen i'n hafan i ddefnyddio ei rhestrau cyflym ar gyfer tasgau cyffredin fel ffurflenni blynyddol.
4. Os ydych chi'n defnyddio dull chwilio safle GOV.UK, dewiswch i ddangos canllawiau'r comisiwn yn unig mewn canlyniadau chwilio drwy glicio ar yr hidlwr cwymplen 'Sefydliadau' a thicio 'Comisiwn Elusennau' (fel arall gallwch chi gynnwys 'comisiwn elusennau' yn eich termau chwilio hefyd).
5. Cliciwch ar y ddolen 'Comisiwn Elusennau' ar frig pob tudalen canllawiau i ddychwelyd i'n hafan (neu teipiwch 'comisiwn elusennau' ym mlwch chwilio GOV.UK).

## Defnyddio ein rhestr wirio i roi 'archwiliad iechyd' i'ch elusen

Fel ymddiriedolwyr, a'r bobl sy'n gyfrifol am redeg eich elusen, mae'n bwysig eich bod chi'n adolygu effeithiolrwydd eich elusen yn gyson. Pa heriau ydych chi'n eu hwynebu? Ydy strwythur yr elusen yn effeithiol? Pa newidiadau ydych chi'n ystyried eu gweithredu?

Mae'n arbennig o bwysig i adolygu sut mae'ch elusen yn gweithredu mewn hinsawdd economaidd ansicr neu newidiol. Mae cynnal dyfodol ariannol diogel elusen yn anodd, felly mae'n bwysig eich bod chi a'r ymddiriedolwyr eraill yn gofyn cwestiynau anodd i'ch hunain o'r dechrau, ac yn ystyried sut mae'ch cynlluniau yn mynd rhagddynt.

Un ffordd i wneud hyn yw cyfeirio at ein rhestr wirio o 15 cwestiwn allweddol pryd bynnag y byddwch chi'n cwrdd fel ymddiriedolwyr i wneud penderfyniadau am y ffordd y mae'ch elusen yn gweithredu.

Fel rhan o'n cyfres 'Testun Trafod' ar ymddiriedolwyr yn gwneud penderfyniadau, mae'r rhestr wirio yn cwmpasu cwestiynu ar strategaeth, iechyd ariannol a llywodraethu. Ei nod yw'ch helpu chi i ymateb yn briodol i newid drwy ddatblygu cynlluniau ac amserlenni ar gyfer gweithredu.

## Blwyddyn newydd, dechrau newydd: ffeiliwch mewn pryd!

Wrth i ni ddechrau'r flwyddyn ariannol newydd, hoffem ni atgoffa elusennau o'u dyletswyddau cyfreithiol i ffeilio eu cyfrifon a'u hadroddiadau blynyddol mewn pryd gyda ni. Mae'n RHAID i bob elusen roi gwybod i ni am ei hincwm a'i gwariant, gan ddefnyddio'r ffurflen flynyddol. Cofiwch:

- mae'n rhaid i elusennau gydag incwm blynyddol dros £25,000 gyflwyno cyfrifon, adroddiad archwiliwr annibynnol neu archwiliwr ariannol, ac adroddiad blynyddol yr ymddiriedolwyr
- os yw'ch elusen yn SCE (sefydliad corfforedig elusennol) mae'n RHAID i chi gyflwyno'r ffurflen flynyddol a chyfrifon waeth beth fo'ch incwm

Mae gan elusennau hyd at 10 mis o ddiwedd eu blwyddyn ariannol i gyflwyno eu cyfrifon, ac i nifer o elusennau sydd â 31 Mawrth yn ddiwedd y flwyddyn ariannol, y dyddiad cau yw 31 Ionawr. Pan fydd elusen yn anfon eu cyfrifon yn hwyr, mae ei phroffil ar GOV.UK yn cael ei farcio'n hwyr, gan rybuddio rhoddwyr posibl.

Mae POB ymddiriedolwr yn gyfrifol am sicrhau bod eu helusen yn ffeilio mewn pryd - nid cyfrifoldeb y trysorydd neu gyfrifydd yw hyn. Mae'n rhaid i ymddiriedolwyr gadw manylion cyswllt a manylion ymddiriedolwyr yr elusen wedi'u diweddaru hefyd yn ôl y gyfraith.

## Oes gan eich elusen yr awdurdod i gyflogi ymddiriedolwyr?

Mae angen awdurdodiad i dalu neu gyflogi ymddiriedolwr neu rywun sy'n perthyn neu'n gysylltiedig fel arall ag ymddiriedolwr. Gall yr awdurdod hwn gael ei nodi yn eich dogfen lywodraethol neu efallai y bydd angen wneud cais i ni amdano. Edrychwch ar eich dogfen lywodraethol; os nad yw'n caniatáu i chi dalu ymddiriedolwyr, efallai y bydd rhaid i chi gael ein cydsyniad ni i:

- gyflogi ymddiriedolwr
- talu ymddiriedolwr am wasanaethu fel ymddiriedolwr
- digolledu ymddiriedolwr am golli enillion tra oedd ar fusnes ymddiriedolwyr

Os yw'ch elusen yn cyflogi ymddiriedolwr ar hyn o bryd, neu'n ystyried cyflogi un, gwnewch yn siŵr fod gennych chi'r awdurdod perthnasol yn ei le. Os na, darllenwch ein canllaw ac anfonwch y ffurflen hon yn gofyn am ganiatâd i dalu ymddiriedolwyr. Cofiwch mae'n rhaid i bob taliad i ymddiriedolwyr gael ei ddatgelu yng nghyfrifon yr elusen.

## Ydych chi'n ymwybodol o'r newidiadau i drothwyon archwilio elusennau?

Yn dilyn ymgynghoriad gan y Swyddfa Cymdeithas Sifil, daeth newidiadau i drothwyon archwilio elusennau i rym ar 31 Mawrth 2015. Mae'r newidiadau hyn yn ceisio lleihau'r baich rheoleiddio i elusennau, ac yn cynnwys cynyddu'r trothwy archwilio sylfaenol o £500,000 i £1 miliwn, gan olygu y bydd yn ofynnol i lai o elusennau gael archwiliad ffurfiol o'u cyfrifon.

Yn lle hynny gall yr elusennau hyn gael eu cyfrifon wedi'u harchwilio gan grŵp cynyddol o archwilwyr annibynnol, gan sicrhau bod lefel y sicrwydd yn parhau'n uchel.

Mae newidiadau eraill yn cynnwys:

- cynyddu'r trothwy incwm grŵp agregedig pan ddylai rhiant elusennau gael cyfrifon grŵp o £500,000 i £1 miliwn
- cynyddu'r trothwy paratoi ar gyfer cyfrifon grŵp o £500,000 i £1 miliwn

Rydym ni wedi diweddaru ein canllawiau i adlewyrchu'r newidiadau hyn, ac mae elusennau'n cael eu hannog i edrych ar y newidiadau a gweld a allant fanteisio arnynt, yn enwedig y rhai y mae eu blwyddyn ariannol newydd orffen.

## Gwnewch yn siŵr bod eich dulliau codi arian yn agored ac yn glir bob tro

Mewn dau o ddyfarniadau diweddar y Bwrdd Safonau Codi Arian, roedd achwynwyr wedi mynegi pryder nad yw sefydliadau yn glir ac yn ddigon agored am eu hymgyrchoedd codi arian.

Mae bod yn agored ac yn onest yn ddwy o brif egwyddorion arfer gorau ym maes codi arian yn ôl Cod Ymarfer Codi Arian y Sefydliad Codi Arian.

Dywedodd Alistair McLean, Prif Weithredwr FRSB:

> *"Mae bod yn agored â chefnogwyr yn hollbwysig i feithrin ffydd gyhoeddus. Gall hyd yn oed y brandiau ac ymgyrchoedd elusennol mwyaf adnabyddus gael eu tanseilio os nad oes eglurder llwyr ynghylch pwy fydd yn cael budd o unrhyw arian a godir."*

Cynghorir bod elusennau'n sicrhau bod unrhyw ohebiaeth codi arian yn datgan yn glir bob amser pa sefydliadau sy'n cael budd o unrhyw arian a godir ac ni fydd y neges ymgyrchu yn camarwain y cyhoedd.

Er mwyn sicrhau bod eich ymgyrchoedd codi arian yn bodloni safonau'r DU, edrychwch ar y cod heddiw.

### Cymryd rhan yn Wythnos Elusennau Bach!

Mae Wythnos Elusennau Bach yn rhedeg rhwng 15-20 Mehefin 2015. Mae'n dathlu ac yn codi ymwybyddiaeth o waith hollbwysig sector elusennau bach y DU sy'n gwneud cyfraniad amhrisiadwy i fywydau miliynau o unigolion, cymunedau ac achosion ledled y DU a gweddill y byd. Mae ystod eang o ddigwyddiadau yn cael eu cynnal felly edrychwch ar y wefan a dilynwch @SCWeek2015 i weld sut y gallwch chi gymryd rhan.